Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Priory Talocher

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  21/03/2018**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion cysylltiedig yw Ysgol Priory Talocher. Caiff ei gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Priory. Mae'r ysgol hon yn rhan o Grŵp ehangach Priory sydd â thros 30 o ysgolion a cholegau arbenigol ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r ysgol yn ysgol addysg ddydd, a adeiladwyd yn bwrpasol, ar gyrion Trefynwy. Mae'r adeiladau'n cynnwys ystafelloedd dosbarth newydd, neuadd chwaraeon a chyfres o ystafelloedd bugeiliol a therapi. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 55 o ddisgyblion rhwng 7 ac 19 oed. Mae 40 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae 34 ohonynt yn fechgyn, a chwech yn ferched. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig neu gynlluniau addysg a gofal iechyd. Mae un ar ddeg o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r amgylchedd dysgu wedi cael ei wella'n ddiweddar gan ystafelloedd dosbarth newydd, llyfrgell newydd ac ardaloedd newydd penodol ar gyfer cymorth bugeiliol a therapiwtig. Mae disgyblion iau yn elwa ar ofod wedi'i ddylunio'n dda yn yr awyr agored sy'n cynnig cyfle ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a hamdden. Mae'r safle'n ddiogel ar y cyfan, gydag ardaloedd dynodedig ar gyfer disgyblion iau a hŷn.

Mae'r ysgol yn dadansoddi deilliannau arsylwadau gwersi'n drylwyr. Trafodir y wybodaeth a gasglwyd yng nghyfarfodydd yr uwch dîm arweinyddiaeth, a nodir tueddiadau a phatrymau. Defnyddir y rhain i rannu arfer orau a chynorthwyo athrawon â'u datblygiad proffesiynol.

Mae'r ysgol wedi gwella'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion iau i ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr ac ystyrlon. Er enghraifft, caiff disgyblion iau gyfle i dreulio un diwrnod yr wythnos oddi ar y safle ar fferm ble maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu trwy waith prosiect diddorol.

### Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol wedi cyflwyno asesiadau darllen newydd yn ddiweddar. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r disgyblion bellach yn cael ystod ehangach o asesiadau gwaelodlin pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu rhaglenni darllen addas ar gyfer pob un o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y mentrau hyn ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn yr ymweliad monitro diwethaf ynghylch ansawdd y targedau mewn cynlluniau addysg

unigol (CAUau) a’r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi digwyddiadau difrifol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau’r meysydd hyn a dylent barhau yn flaenoriaethau ar gyfer gwella.

At ei gilydd, mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Fodd bynnag, mae nifer y cloeon cyfunol a’r gwahanol allweddi sydd eu hangen i agor gatiau a drysau o amgylch y safle yn cyfyngu ar ba mor gyflym y gall staff ymateb i ddigwyddiadau penodol.

## Argymhellion

A1 Gwneud yn siŵr fod effaith rhaglenni darllen yn cael ei monitro a’i harfarnu i lywio cynllunio gwelliant

A2 Rhoi system hylaw ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau difrifol a mesurau rheoli ychwanegol

A3 Sicrhau bod targedau llythrennedd a rhifedd ar CAUau yn fyr, mesuradwy a phenodol i’r disgybl unigol

A4 Sicrhau bod targedau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion hŷn yn cael eu rhannu’n effeithiol i sicrhau dull cyson o ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

A5 Adolygu priodoldeb cloeon diogelwch y safle i wneud yn siŵr fod staff yn gallu symud yn gyflym rhwng ardaloedd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella safonau disgyblion mewn llythrennedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r data sydd ar gael yn dechrau dangos gwelliannau yn llythrennedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi penodi arweinydd llythrennedd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran cynllunio ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod yr amserlen yng nghyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu'r gwaith yn ymarferol, ac yn rhoi ystod ddigon eang o brofiadau i ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi adolygu a diwygio'r amserlenni ar gyfer cyfnod allweddol 2. Erbyn hyn, mae'r rhain yn adlewyrchu ystod eang y profiadau dysgu ar gyfer y disgyblion iau. Caiff y disgyblion hyn gyfle da i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi a meithrin, gan gynnwys mynediad at ardal ddysgu a adeiladwyd yn bwrpasol yn yr awyr agored.

**Argymhelliad 3: Datblygu ystod o adnoddau darllen sy'n briodol i oedran a chyfnod, yn enwedig ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr ysgol lyfrgell newydd sy'n darparu gofod pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio deunyddiau darllen. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys ystod gynyddol o lyfrau, ac mae'r ysgol wedi cyflwyno cynlluniau darllen newydd sy'n anelu at ddatblygu medrau darllen disgyblion dros gyfnod.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod targedau yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion yn fwy penodol a mesuradwy**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi adolygu pa mor dda y mae athrawon yn cwblhau a defnyddio CAUau. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cynnal hyfforddiant addysgiadol ar gyfer staff. Erbyn hyn, ceir fformat cyson a safonol ar gyfer CAUau i bob disgybl. Mae athrawon yn gosod targedau ymddygiad ar gyfer disgyblion sy'n briodol a mesuradwy.

Fodd bynnag, mae targedau llythrennedd a rhifedd ar CAUau disgyblion yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn ddigon penodol i'r disgybl unigol. Mae hyn yn golygu na all athrawon fesur cynnydd yn hawdd. Yn ychwanegol, ni chaiff targedau ar gyfer disgyblion hŷn eu rhannu'n effeithiol rhwng staff i sicrhau dull cyson o ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 5: Adolygu'r systemau i gofnodi digwyddiadau difrifol a mesurau rheoli ychwanegol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi adolygu'r system gofnodi bresennol ar gyfer digwyddiadau difrifol. Mae'r adolygiad hwn wedi pennu bod angen system newydd symlach. Fodd bynnag, mae gormod o arafwch wrth roi'r system hon ar waith.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Priory Talocher |
| **Rhif yr ysgol** | 6796014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 17/01/2018 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | 1 pennaeth; 1 dirprwy bennaeth; 1 pennaeth yr ysgol is, 1 pennaeth cynorthwyol; 9 o athrawon; 13 aelod o staff bugeiliol a chymorth dysgu; 2 aelod o staff cymorth busnes:  2 aelod o staff gweinyddol; 1 cogydd; 1 cynorthwyydd cegin; 1.5 staff gwaith cynnal |
| **Nifer y disgyblion** | 40 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anghenion cymdeithasol, emosiynol a/neu iechyd meddwl |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 03/06/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 17/10/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |